# Cyngor Castell-nedd Port Talbot

## Strategaeth Hygyrchedd 2025-2028

Strategaeth i gyflwyno'r dull gweithredu mae Castell-nedd Port Talbot yn ei ddefnyddio i gynyddu mynediad at addysg i blant a phobl ifanc anabl, fel bod modd iddyn nhw elwa o'r ddarpariaeth addysg i'r un graddau â phlant heb anableddau.

(Canllawiau Llywodraeth Cymru 2018).

# Cynnwys

## Adran 1


- Cyflwyniad
- Fframwaith Deddfwriaethol
- Addasiadau Rhesymol
- Ystyr Anabledd
- Y Cyfnod o Amser dan sylw
- Cyd-destun CNPT
- Adolygu’r Strategaeth Flaenorol
- Asesiad o Lefelau Hygyrchedd cyfredol


## Adran 2


- Dull o ddatblygu’r Strategaeth
- Ymgynghori a Wnaed
- Ymatebwyr
- Crynodeb o’r Ymgynghoriad


## Adran 3


- Cynllun gweithredu ar gyfer cynyddu'r graddau y gall disgyblion anabl gymryd rhan yn y cwricwlwm.
- Cynllun gweithredu ar gyfer gwella'r amgylchedd ffisegol er mwyn cynyddu'r graddau y mae disgyblion anabl yn gallu manteisio ar addysg a buddion, cyfleusterau neu wasanaethau a ddarperir neu a gynigir gan ysgolion.
- Cynllun gweithredu ar gyfer gwella'r modd y cyflwynir gwybodaeth i ddisgyblion anabl sydd ar gael yn hawdd i ddisgyblion nad ydynt yn anabl.
- Trefniadau Monitro, Adolygu a Gwerthuso.

## Adran 1

## Cyflwyniad

Ein gweledigaeth yn Castell-nedd Port Talbot yw rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn; bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy; bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd, ein treftadaeth a'n diwylliant; a bod gan bobl leol y sgiliau i gael mynediad at swyddi cynaliadwy am gyflog da yn yr economi werdd leol. (Cynllun Corfforaethol CNPT 2024)

Bydd Castell-nedd Port Talbot yn fan lle mae pob plentyn a pherson ifanc 0-25 oed, beth bynnag yw eu hamgylchiadau, yn rhan o gymuned sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu cefnogi i ffynnu mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw. (Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CNPT 2024)

Mae'r strategaeth hygyrchedd hon yn cyflwyno'r dull gweithredu mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn ei ddefnyddio i gynyddu mynediad at addysg i blant a phobl ifanc anabl, fel eu bod yn gallu elwa o ddarpariaeth addysg i'r un graddau â phlant sydd heb anabledd (Canllawiau Llywodraeth Cymru 2018).

Mae'r strategaeth hon yn allweddol i gefnogi rhai o'n nodau, y manylir arnynt yn ein Cynllun Corfforaethol o dan Amcan Llesiant 1 – Y Dechrau Gorau mewn Bywyd. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod ein plant ifancaf wedi'u paratoi'n well ar gyfer y pontio i fyd addysg.
- Symud ymlaen gyda'n rhaglen wella strategol i ysgolion er mwyn datblygu ein hamgylcheddau dysgu ac addysgu.
- Parhau i estyn diwygiadau addysg i gefnogi pob disgybl, gan gynnwys deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Cwricwlwm i Gymru, er mwyn codi safonau i bob dysgwr ar draws ein hysgolion.
- Darparu cyfleoedd i bawb elwa o'r cyfle i ddysgu, gwerthfawrogi a ffurfio'u bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cefnogi ysgolion i sicrhau gwelliant yng nghyfraddau presenoldeb disgyblion ar draws pob ysgol.
- Cefnogi ysgolion i leihau nifer y disgyblion sy'n destun gwaharddiad.
- Gwell cyfleusterau, a gwasanaethau chwarae a hamdden gwell ar gyfer plant a phobl ifanc.

## Y Fframwaith Deddfwriaethol

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) wedi cyflwyno Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus sengl (PSED) sy'n berthnasol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariannir. Mae hyn yn cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig – hil, anabledd, rhyw, oed, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil ac ailbennu rhywedd.

Wrth gyflawni eu swyddogaethau, mae’n ofynnol bod cyrff cyhoeddus yn rhoi sylw dyledus i’r angen am wneud y canlynol:

- Dileu gwahaniaethu yn erbyn pobl ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu
- Meithrin cydberthynas dda ar draws yr holl nodweddion – rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu

Wrth gyflawni’r dyletswyddau hyn, mae dyletswydd ar ALlau ac ysgolion i baratoi Strategaethau a Chynlluniau Hygyrchedd yn eu tro, fel y pennir yn Atodlen 10 i’r Ddeddf Cydraddoldeb ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau.

Mae Atodlen 10 yn datgan:

Bod strategaeth hygyrchedd yn strategaeth sydd, dros gyfnod rhagnodedig

a) Yn cynyddu i ba raddau gall disgyblion ag anabledd gyfranogi yng nghwricwlwm ysgolion;

b) Yn gwella amgylchedd ffisegol ysgolion er mwyn cynyddu i ba raddau mae disgyblion ag anabledd yn medru manteisio ar addysg a buddion, cyfleusterau neu wasanaethau sy’n cael eu darparu neu eu cynnig gan yr ysgolion;

c) Gwella cyflwyno i ddisgyblion ag anabledd yr wybodaeth sydd ar gael yn hwylus i ddisgyblion heb anabledd.

## Addasiadau rhesymol

Mae dyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau lleol i ddarparu addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion ag anabledd. Mae’r ddyletswydd hon yn gofyn bod ysgol yn cymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod disgyblion ag anabledd yn gallu cyfranogi’n llawn yn yr addysg mae’r ysgol yn ei darparu, a mwynhau’r buddion, y cyfleusterau a’r gwasanaethau eraill mae’r ysgol yn eu darparu.

Mae canllawiau ar gyfer rhoi hyn ar waith yn ymarferol mewn ysgolion i’w canfod ar wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

## Ystyr anabledd

Mae'r term 'disgybl' yn golygu plentyn neu berson ifanc o unrhyw oed y mae addysg yn cael ei darparu, neu mae gofyn darparu addysg ar eu cyfer

Yn unol ag adran 6 o'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010), mae gan berson (P) anabledd os:

a) Oes gan P nam corfforol neu feddyliol, ***ac***
b) Os yw'r nam hwnnw'n cael effaith sylweddol, hirdymor ar allu P i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Mae'r diffiniad o anabledd yn cwmpasu namau corfforol, sy'n cynnwys namau symudedd a synhwyraidd. Mae hefyd yn cwmpasu namau meddyliol sy'n cynnwys anawsterau dysgu ac unrhyw nam sy'n deillio o salwch meddwl. Yn yr olaf, nid oes rhaid i'r salwch meddwl fod yn un 'clinigol gyfarwydd', ond mae'n rhaid iddo gael effaith sylweddol, hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Bernir bod canser, haint feirws diffyg imiwnedd dynol (HIV) a sglerosis ymledol yn anabledd, fel y mae anharddu difrifol (Deddf Cydraddoldeb, Atodlen 1, paragraffau 3 a 6).

Mae anabledd hefyd yn cwmpasu'r rhai sydd â chyflwr gwaethygol, megis distroffi'r cyhyrau, sy'n arwain at berson yn wynebu nam a fydd yn y dyfodol yn cael effaith andwyol sylweddol ar allu'r person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd (Deddf Cydraddoldeb, Atodlen 1, paragraff 8).

Rhaid bod effaith y nam yn sylweddol, a rhaid ei fod yn cael effaith andwyol sy'n fwy nag effaith fach. Y rheswm am hynny yw nad yw nam ynddo'i hun yn golygu ei fod yn gwneud person yn anabl.

## Y Cyfnod o Amser dan sylw

Bydd y strategaeth hon yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2025 a 2028. Bydd yn cael ei hadolygu'n flynyddol a'i diweddaru bob tair blynedd.

## Cyd-destun CNPT

Yng Nghastell-nedd Port Talbot mae ysgolion prif ffrwd a darpariaethau arbenigol yn cyflawni rôl allweddol o ran cefnogi myfyrwyr sydd ag ystod eang o anableddau trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Trwy gydweithio'n agos â rhieni, addysgwyr ac asiantaethau allanol, gall ysgolion sicrhau bod eu darpariaethau'n bodloni anghenion amrywiol myfyrwyr.

Mae cyfleusterau addysgu arbenigol yn ategu amgylchedd cynhwysol ysgolion prif ffrwd trwy gynnig adnoddau ac arbenigedd wedi'u teilwra, fel bod modd i ddisgyblion ag anableddau ffynnu'n academaidd

ac yn gymdeithasol. Mae’r dull gweithredu integredig hwn yn tanlinellu pwysigrwydd system gydlynus sy’n gosod gwerth ar gynhwysedd a chefnogaeth arbenigol.

Mae’r tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cynnwys amrywiol grwpiau o weithwyr proffesiynol sy’n cefnogi dysgwyr ag anabledd, gan roi cyngor ac arweiniad i’r ysgolion:

- Tîm Ymgynghorol Anhwylderau Sbectrwm Awtistig (ASD)
- Y Gwasanaeth Seicoleg Addysg
- Tîm Ymgynghorol Iaith a Lleferydd
- Tîm Anawsterau Llythrennedd
- Tîm Addysg i’r Byddar
- Y Gwasanaeth Llesiant ac Ymddygiad
- Therapi Galwedigaethol
- Y Gwasanaeth Namau ar y Golwg

Ar hyn o bryd ni chesglir data penodol ynghylch nifer y dysgwyr ag anabledd. Fodd bynnag, gallwn ni ddefnyddio’r ffigurau ADY a gesglir trwy’r Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel y Disgybl (PLASC), i roi darlun i ni ar draws CNPT. (Gweler y tabl isod)

Mae’r data diweddaraf yn rhoi gwybod i ni fod 19,923 o ddisgyblion 3-16 oed yn mynychu’r 73 o ysgolion ar draws Castell-nedd Port Talbot. Ar hyn o bryd cofnodir bod gan 13% neu 2516 o ddisgyblion ADY.

Y Ffigurau ym mis Ionawr 2024

| ***Angen*** | ***Union Nifer*** | ***% o’r Cyfanswm ADY*** |
|---|---|---|
| Anawsterau Dysgu Cymedrol | 372 | 14.78% |
| Anawsterau Dysgu Difrifol | 106 | 4.21% |
| Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog | 31 | 1.23% |
| Anhawster Dysgu Penodol | 99 | 3.93% |

| *Angen* | *Union Nifer* | *% o’r Cyfanswm ADY* |
|---|---|---|
| Anghenion Ymddygiad, Emosiynol a Chymdeithasol | 652 | 25.91% |
| Anhwylder Sbectrwm Awtistig | 440 | 17.48% |
| Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu | 851 | 33.82% |

Nid yw’r ffaith bod ADY yn cael eu cofnodi ar gyfer Person yn golygu bod y person dan sylw yn cael eu cofrestru’n awtomatig fel rhywun ag anabledd

## Adolygu’r strategaeth flaenorol:

Roedd y strategaeth flaenorol yn amlinellu sawl llif gwaith allweddol oedd yn cael effaith gadarnhaol ar allu disgyblion ag anabledd i gael mynediad i’r ysgol. Crynhoir y rhain o dan dri phrif bennawd: cwricwlwm, amgylchedd, a gwybodaeth.

### Mynediad at Gwricwlwm yr Ysgol;

Rhoddodd y Tîm Cefnogi Addysg, mewn cydweithrediad â’r tîm ADY, raglen ar waith a luniwyd i helpu athrawon i wella’u haddysgeg er mwyn cefnogi disgyblion ag ADY ac anableddau. Mae’r rhaglen bellach yn ei hail flwyddyn, ac wedi hyfforddi dros 50 o athrawon, sydd i gyd wedi rhannu eu gwybodaeth gyda’u cydweithwyr, gan gyfoethogi ymhellach ddealltwriaeth staff o strategaethau addysgu effeithiol.

Ar ben hynny, mae’r Gwasanaeth Seicoleg Addysg, ochr yn ochr â gwasanaethau cefnogi eraill, wedi cyflwyno cyfres o sesiynau hyfforddi i rieni, staff addysgu ac ALNCos. Mae’r sesiynau hyn wedi dyfnhau eu dealltwriaeth o anghenion dysgu amrywiol, gan arwain at well mynediad i’r cwricwlwm ar gyfer nifer sylweddol o ddisgyblion ar draws CNPT.

Lansiodd y Tîm Blynyddoedd Cynnar brosiect peilot o’r enw “Ready Steady School” yn Ysgol Gynradd Melin, gyda’r nod o gefnogi disgyblion oedd yn pontio i’r Meithrin a’r Derbyn. Darparodd y fenter gefnogaeth amserol i deuluoedd ac ysgolion, gan helpu disgyblion i fynychu’r ysgol yn rheolaidd ac ymgysylltu’n llawn â’r cwricwlwm. Bydd y prosiect yn cael ei ehangu y flwyddyn nesa.

Cafodd ddarpariaeth newydd ei hadeiladu Ysgol Gynradd Blaenhonddan a chreu lleoedd ychwanegol cynlluniedig yn Waunceirch ac Ysgol Hendrefelin yn sgil y galw.

### Mynediad i’r Amgylchedd Ffisegol;

Mae'r Grŵp Mynediad Anabledd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i roi sylw i heriau brys roedd ysgolion yn eu hwynebu. O ganlyniad, gwnaed amrywiaeth o welliannau, gan gynnwys gosod canllawiau, rampiau, toiledau hygyrch, a gwelyau newid, y cyfan wedi’u bwriadu i wella mynediad disgyblion i’w hamgylcheddau dysgu.

Gwnaed sawl gwelliant sylweddol i adeiladau ysgol er mwyn gwella hygyrchedd a’r amgylchedd dysgu. Ymhlith yr enghreifftiau nodedig mae YGG Trebannws ac Ysgol Gynradd Maesmarchog, a fu fel ei gilydd yn destun ailfodelu ystafelloedd dosbarth er mwyn cefnogi anghenion eu disgyblion yn well.

## Mynediad at Wybodaeth;

Bu'r Tîm Addysg i'r Byddar yn cynorthwyo ysgol gyfun Llangatwg i osod system sain oedd yn galluogi'r staff i gyflwyno lefel leisio gyson ar draws eu hystafelloedd dosbarth, gan greu amgylchedd sain gwell oedd yn cefnogi'r holl ddysgwyr yn eu dysgu.

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg wedi creu podlediadau ar gyfer teuluoedd plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'r penodau sain hyn yn darparu cynghorion a strategaethau ymarferol i gefnogi myfyrwyr yn yr ysgol, ond hefyd yn rhannu enghreifftiau o arfer da. Mae fformat y podlediad yn golygu bod yr wybodaeth yn fwy hygyrch i gynulleidfa ehangach, gan gynnwys rhai sydd o bosib heb gyfle i gael gafael ar ddeunyddiau ysgrifenedig.

## Asesiad o lefelau hygyrchedd cyfredol:

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cynnal graddau hygyrchedd ar gyfer pob ysgol ac adeilad addysgol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, canolbwynt ein hymdrechion fu gwella'r rhai oedd â'r graddau isaf er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau hygyrchedd gofynnol.

# Adran 2

## Dull o ddatblygu'r strategaeth

Sefydlodd CNPT grŵp craidd o weithwyr proffesiynol i hwyluso datblygiad y strategaeth hon. Roedd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol

- Addysg
- Partneriaeth Meddwl am y Teulu
- Cymorth i Blant a Theuluoedd
- Rheoli Asedau
- Trafnidiaeth
- Blynyddoedd Cynnar a Phartneriaethau
- Gwasanaethau gwirfoddol
- Timau ADY
- Gwasanaethau Cefnogi a Thrawsffurfio

## Ymgynghori a Wnaed:

Rhan allweddol o'r ymarfer oedd barn rhanddeiliaid. I gyflawni hyn, anfonwyd holiaduron at:

- Disgyblion
- Rhieni
- Staff Ysgolion
- Arweinwyr Ysgolion
- Gweithwyr Proffesiynol cysylltiedig ag ysgolion

## Ymatebwyr

| Ymatebwyr | Nifer |
|---|---|
| **Ysgolion** | 16 |
| **Dysgwyr** | 110 |
| **Rhieni/Gofalwyr** | 87 |
| **Gweithwyr Proffesiynol** | 3 |

## Crynodeb o'r ymgynghori:

### Disgyblion:

Gwnaeth bron yr holl ddisgyblion sylw eu bod yn gallu cymryd rhan yn yr holl wersi a gweithgareddau a gynigir gan eu hysgol. Yn yr achosion prin iawn lle teimlai disgyblion eu bod yn methu cael mynediad i'r cwricwlwm, roedd y rhesymau a roddwyd yn canolbwyntio ar y pryder roedd disgyblion yn ei deimlo mewn gwahanol amgylcheddau a materion a nodwyd ganddynt eu hunain o ran ymddygiad mewn mannau anghyfarwydd. Pan ofynnwyd iddyn nhw awgrymu atebion posibl i'w cefnogi i gael mynediad i wersi a gweithgareddau, awgrymodd y disgyblion fannau tawel yn yr ysgol lle gallan nhw reoleiddio, a chefnogaeth ychwanegol yn y gwersi.

Rhannodd y disgyblion ystod o adnoddau sydd ar gael iddyn nhw i'w helpu i gyfranogi yn y cwricwlwm. Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd roedd gliniaduron amddiffynwyr clustiau, darllenwyr trochol a theganau ffidlan. Dywedodd bron yr holl ddisgyblion fod eu hathrawon a'u cynorthwywyr dysgu yn ymwybodol o'u hanghenion ac yn gwybod beth i'w wneud i'w helpu yn yr ysgol. Teimlai rhai disgyblion fod angen mwy o hyfforddiant ar staff yr ysgol ynghylch eu diagnosis penodol er mwyn eu helpu'n iawn, ac roedd awgrymiadau eraill yn troi o gwmpas lleihau maint y dosbarthiadau i'w gwneud yn llai swnllyd.

Roedd ymatebion y disgyblion ynghylch symud o gwmpas yn yr amgylchedd ffisegol yn gadarnhaol iawn, gyda bron y disgyblion i gyd yn nodi nad oes rhwystrau i symud o gwmpas, a bod eu hysgol yn effeithiol iawn o ran sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad i bob ardal. Yn yr un modd, ni chododd disgyblion unrhyw bryderon ynghylch hygyrchedd trafnidiaeth i'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cytuno eu bod yn deall y rhan fwyaf o'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi iddyn nhw yn yr ysgol. Mewn achosion lle nad yw hynny'n wir, mae'r disgyblion yn cyfeirio at gyflymder y

gwersi neu amgylchedd dysgu swnllyd. Mae'r ymatebwyr yn cytuno bod eu syniadau a'u barn yn cael gwrandawiad yn yr ysgol, ac mae llawer yn perthyn i gyngor ysgol.

## Rhieni:

Roedd yr ymatebion a gasglwyd gan rieni yn dod o grŵp amrywiol o deuluoedd, gan gynnwys rhai oedd â phlant ag anabledd, a rhai heb blant ag anabledd. Roedd yr amrywiaeth o fathau o anabledd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar wahanol brofiadau teuluol.

Roedd bron yr holl rieni yn adrodd bod eu plant yn gallu cyfranogi yn yr holl wersi a gweithgareddau mae'r ysgol yn eu cynnig. Yn yr achosion prin lle nad oedd hynny'n wir, soniwyd am glybiau brecwast, gweithgareddau ar ôl ysgol a theithiau fel eithriadau. Y prif reswm dros golli'r digwyddiadau hyn oedd y pryder roedd myfyrwyr yn ei brofi mewn amgylcheddau newydd neu orlawn. Ymhlith y ffactorau eraill roedd prinder staff yn yr ysgol a'r ffaith bod rhai digwyddiadau yn anaddas, er enghraifft rhai oedd yn cynnwys gormod o gerdded.

Gwnaeth rhieni'r sylw, pan fydd angen cyfarpar arbenigol i gefnogi eu plant yn y gwersi, fod ysgolion yn diwallu'r angen hwnnw. Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd roedd celfi arbenigol, gliniaduron, amddiffynwyr clustiau a chyfarpar meddygol. Cafwyd enghreifftiau prin iawn lle na ddarparwyd cyfarpar oherwydd diffyg cyllid.

Cafwyd adborth cadarnhaol gan rieni ynghylch gwaith y Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan dynnu sylw at aelodau staff sy'n ymweld yn rheolaidd â'u plant yn yr ysgol i gydweithio â'r myfyrwyr a staff yr ysgol. Pan ofynnwyd sut gallai'r gefnogaeth i'w plant gael ei gwella, roedd yr awgrymiadau'n cynnwys cynyddu nifer y staff, sicrhau mwy o gyllid i ysgolion, cynyddu ymwybyddiaeth o ddiagnosiau, darparu mwy o gyfleoedd hyfforddi i'r staff, a gwella'r cyfathrebu rhwng yr amrywiol athrawon sy'n ymwneud â phlentyn.

Mae'r ymatebion a gasglwyd yn awgrymu'n gryf bod y rhieni a lanwodd yr holiadur yn teimlo y gall eu plant gael mynediad i amrywiol ardaloedd yn yr ysgol a symud o gwmpas yn hwylus. Ychydig iawn o adborth negyddol a gafwyd, gydag ambell un yn sôn am faterion fel gormod o risiau, lloriau anwastad, a diffyg cefnogaeth 1:1. Roedd y pryderon ynghylch trafnidiaeth i'r ysgol yn brin, ond lle soniwyd amdanynt, roedd y prif heriau'n cynnwys pryder a chefnogaeth annigonol gan oedolyn.

Mae'r rhan fwyaf o rieni o'r farn bod eu plant yn cael trafferth darllen a deall yr holl wybodaeth sy'n cael ei darparu iddyn nhw. Roedd llawer o ymatebion yn tynnu sylw at sgiliau darllen cyfyngedig eu plant a diffyg hyblygrwydd yr ysgol o ran cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd wahanol. Er bod rhieni'n teimlo bod gan eu plentyn lais yn yr ysgol, maen nhw'n credu nad yw syniadau neu awgrymiadau bob amser yn arwain at weithredu. Ar ben hynny, nid oedd y rhan fwyaf o rieni'n ymwybodol o gynllun hygyrchedd eu hysgol.

## Arweinwyr Ysgol:

Mae arweinwyr ysgol yn hyderus bod dysgwyr anabl yn gallu cyfranogi'n llawn yn holl feysydd y cwricwlwm, yn ogystal â chael mynediad i glybiau brecwast a gweithgareddau ar ôl ysgol. Cadarnhawyd hefyd fod dysgwyr ag anabledd yn gallu cymryd rhan mewn teithiau a chynyrchiadau. Mewn nifer bach o'r ymatebion, nododd ysgolion fod angen ymarferiad rhychwantu i roi sylw i'r cwestiwn. Rhannodd ysgolion amrywiol fentrau maent wedi'u rhoi ar waith i leihau'r rhwystrau i ddysgwyr ag anabledd, megis cyflogi staff ychwanegol, trefnu teithiau'n benodol ar gyfer dysgwyr ADY, cryfhau ymgysylltiad rhieni i wella cyfathrebu, a defnyddio apiau ac adnoddau ar-lein i gefnogi'r dysgu.

Mae bron yr holl arweinwyr ysgol yn credu bod disgyblion ag anabledd yn cael mynediad i bob ardal yn eu hysgol, gyda llawer yn cyfeirio at adeiladau newydd neu welliannau sylweddol a wnaed i sicrhau hygyrchedd. Fodd bynnag, soniodd rhai ymatebion y gall cae'r ysgol neu'r ardal Ysgol Goedwig fod yn anodd eu cyrraedd i rai disgyblion ag anabledd. Amlygodd nifer bach o ysgolion hefyd yr angen am ddatblygu cyfarpar chwarae awyr agored i hybu cynhwysiant. Roedd yr ymatebion hefyd yn darparu enghreifftiau o addasiadau a wnaed i greu mannau penodedig ar gyfer disgyblion ag anabledd, gyda llawer o ysgolion yn sôn am osod ystafelloedd synhwyraidd a mannau a luniwyd i gefnogi'r nifer cynyddol o blant ag Anhwylder Sbectrwm Awtistig. Fodd bynnag, soniodd ambell ysgol am ddiffyg lle fel rhwystr i ddatblygu pellach, er bod rhyw 50% o'r ymatebion yn nodi y bydd angen gwaith datblygu yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Roedd yr ymatebion yn dangos bod arweinwyr ysgol yn credu eu bod yn darparu mynediad i amrywiaeth o wybodaeth i ddysgwyr ag anabledd trwy wahanol ddulliau. Mae'r rhain yn cynnwys defnydd o ddelweddau, troshaenau lliw, testun maint mawr, technolegau cynorthwyo, codau QR, a galwadau ffôn yn hytrach na llythyron. Mae arweinwyr ysgol o'r farn bod pob disgybl ag anabledd yn cael mynediad at weithgareddau llais y disgybl ac yn cael cyfleoedd i awgrymu gwelliannau.

## Gweithwyr Proffesiynol Eraill:

Mae'r gyfradd ymateb isel i'r rhan hon o'r holiadur yn golygu bod nodi unrhyw dueddiadau clir yn heriol. Fodd bynnag, roedd trafodaeth y grŵp proffesiynol yn werthfawr i grynhoi barn a safbwyntiau.

Roedd llawer o weithwyr proffesiynol yn gallu nodi ysgolion oedd wedi gwneud addasiadau rhesymol i gefnogi dysgwyr ag anabledd i gael mynediad i'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol. Rhannwyd enghreifftiau o staff ysgol a oedd wedi ymgymryd â hyfforddiant penodol ac a oedd yn gwneud mwy na'r galw i gynorthwyo'r dysgwyr yn eu gofal. Amlygwyd arferion da hefyd mewn sawl ysgol oedd wedi datblygu ardaloedd dynodedig i helpu gyda rheoleiddio. Fodd bynnag, cyfeiriwyd at sawl maes yr oedd angen eu gwella, megis lleihau lefelau sŵn, gwerthuso'r defnydd o ofod, a sicrhau cysondeb ymhlith staff cymorth. Codwyd sawl tro y nifer cynyddol o ddysgwyr sy'n profi gorbryder i'r graddau bod hynny'n cael effaith ddifrifol ar eu diwrnod ysgol, a nodwyd bod angen hyfforddiant pellach ar y mater hwn.

Rhannodd y gweithwyr proffesiynol enghreifftiau niferus o addasiadau a wnaed i amgylchedd yr ysgol i gefnogi symudiadau dysgwyr ag anabledd. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cynllunio ar gyfer pontio er mwyn sicrhau bod anghenion penodol yn cael eu deall ac yn derbyn sylw prydlon. Trafodwyd yn fanwl yr heriau mae ysgolion yn eu hwynebu gyda symudiadau o fewn y flwyddyn, gyda ffocws ar gyllid ar gyfer staff cymorth a throsglwyddo gwybodaeth rhwng ysgolion. Roedd galw hefyd am atgoffa ysgolion o'u cyfrifoldeb i ddefnyddio'u cyllidebau dirprwyedig i dalu am waith angenrheidiol, ynghyd â'r angen am gynnal arolygon o safle'r ysgol.

Amlygwyd sawl enghraifft o arfer da yng nghyswllt dysgwyr ag anabledd yn cyrchu gwybodaeth, gan gynnwys trefniadau rhannu cyfarpar rhwng ysgolion, defnyddio technoleg, ac ymgysylltiad rhieni. Fodd bynnag, nodwyd yr iaith a ddefnyddir mewn CDUiau fel rhwystr, ynghyd â'u fformat, sy'n golygu eu bod yn anodd eu darllen ar sgrîn. Awgrymwyd cynhyrchu fersiynau sain. Ar ben hynny, nodwyd bod y platfformau cyfathrebu a ddefnyddir mewn ysgolion yn heriol i rai dysgwyr anabl, a bod angen i ysgolion ddarparu meddalwedd amgen.

# Adran 3

**Cynyddu’r graddau y gall disgyblion anabl gymryd rhan yn y cwricwlwm.**

Ysgolion sy’n bennaf gyfrifol am sicrhau bod disgyblion ag anabledd yn cael mynediad cyfartal i’r cwricwlwm, ac mae’n rhaid iddyn nhw sicrhau bod y disgyblion hyn yn derbyn eu hawl i’r Cwricwlwm ac yn cael cynnig cyfleoedd i estyn eu profiadau a’u dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Mae’r cynllun gweithredu sy’n cefnogi’r Strategaeth hon yn cyflwyno’r camau penodol y bydd yr Awdurdod yn eu cymryd i gefnogi ysgolion i gyflawni eu dyletswydd o ran sicrhau mynediad cyfartal i’r cwricwlwm i ddisgyblion ag anabledd.

Bydd ysgolion yn parhau i dderbyn cefnogaeth, arweiniad a chyngor gan wasanaethau cymorth yr AALl ar gyfer mathau penodol o anabledd.

| ***Blaenoriaeth*** | ***Effaith*** | ***Cost*** | ***Amserlen*** |
|---|---|---|---|
| Datblygu a rhannu arweiniad i arweinwyr ysgol a chyrff llywodraethu ar ddatblygu eu cynlluniau hygyrchedd. | Uchel | Isel | Byr |
| Rhannu enghreifftiau o arfer gorau i gefnogi datblygiad proffesiynol. | Uchel | Isel | Byr |
| Sicrhau bod ysgolion ac arweinwyr yn ymwybodol o’r ysgol o dimau a gwasanaethau arbenigol sydd ar gael o fewn yr awdurdod, yn cynnig cyngor, arweiniad ac ymgynghori, ac yn cael mynediad iddynt. | Uchel | Isel | Byr |
| Annog ysgolion i gydweithio fel cymunedau dysgu proffesiynol, gan rannu arferion gorau ac arbenigedd. | Uchel | Isel | Canolig |

| ***Blaenoriaeth*** | ***Effaith*** | ***Cost*** | ***Amserlen*** |
|---|---|---|---|
| Cynorthwyo ysgolion i archwilio eu hamgylcheddau dysgu er mwyn rhoi sylw i anghenion dysgu amrywiol yr holl fyfyrwyr. | Uchel | Canolig | Canolig |

**Gwella’r amgylchedd ffisegol er mwyn cynyddu’r graddau y mae disgyblion anabl yn gallu manteisio ar addysg, cyfleusterau neu wasanaethau a ddarperir neu a gynigir gan ysgolion.**

Rhaid i ysgolion sicrhau bod eu strategaethau hygyrchedd yn cynnwys archwiliad o’u hadeiladau, ac yn dangos sut bydd unrhyw ddiffygion yn derbyn sylw dros amser. Mae disgwyl i ysgolion ystyried sut gall yr ystod o adnoddau sydd ar gael iddyn nhw gael eu defnyddio i gyflawni hyn, gan gynnwys cyllid fformwla dirprwyedig.

Mae’r strategaeth hon yn cynnwys cyfres o egwyddorion sy’n llywio dull yr Awdurdod o gyflawni gwelliannau mynediad i adeiladau ysgol ac adnoddau ehangach. Mae gan yr Awdurdod ystod o wybodaeth am hygyrchedd adeiladau ysgol, a’i nod yw gweithio’n strategol gydag ysgolion i ganfod y gwelliannau angenrheidiol.

Bydd gwasanaethau cymorth Castell-nedd Port Talbot yn parhau i ddarparu cymorth ac arweiniad i ysgolion ynghylch sut gall gwelliannau i adeiladau ac adnoddau ehangach wella hygyrchedd i ddisgyblion ag anabledd.

| ***Blaenoriaeth*** | ***Effaith*** | ***Cost*** | ***Amserlen*** |
|---|---|---|---|
| Cynnig hyfforddiant ac arweiniad i’r holl staff a llywodraethwyr ar wella’r amgylchedd ffisegol i gefnogi cynhwysiad i bawb. | Uchel | Isel | Byr |
| Asesiadau graddio hygyrchedd i'w cwblhau ar bob ysgol ac adeilad addysgol. | Uchel | Canolig | Hir |
| Cynnig cyngor ac arweiniad i ysgolion ar gynllunio gwelliannau i’r amgylchedd ffisegol. | Uchel | Isel | Byr |
| Casglu’r data diweddaraf ynghylch nifer a dosbarthiad oed y disgyblion ag anableddau yn yr awdurdod, fel bod modd gweithredu a chynllunio’n brydlon. | Uchel | Canolig | Canolig |

**Gwella'r broses o gyflwyno gwybodaeth i ddisgyblion anabl sydd ar gael yn hawdd i ddisgyblion nad ydynt yn anabl.**

Mae hawl gan ddisgyblion ag anabledd a'u teuluoedd neu eu gofalwyr i dderbyn gwybodaeth am eu haddysg a'r cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw mewn fformat sy'n hygyrch iddyn nhw. Bydd awdurdod CNPT yn ymdrechu i gynnwys yr holl wybodaeth mae'n ei darparu ar gyfer y cyhoedd mewn fformat sy'n hygyrch iddyn nhw. Bydd CNPT yn parhau i adolygu hygyrchedd yr holl ddogfennau mae'n eu cynhyrchu.

| ***Blaenoriaeth*** | ***Effaith*** | ***Cost*** | ***Amserlen*** |
|---|---|---|---|
| Adolygu'r trefniadau ar gyfer darparu CDUiau a'r fformatiau maen nhw'n cael eu darparu ynddynt. | Uchel | Canolig | Canolig |
| Adolygu'r defnydd o iaith dechnegol mewn CDUiau. | Uchel | Isel | Byr |
| Cefnogi ysgolion i nodi meddalwedd y mae modd ei ddefnyddio i osod isdeitlau mewn cyflwyniadau neu glipiau fideo a ddefnyddir yn ystod gwersi. | Canolig | Isel | Byr |
| Cefnogi ysgolion i adolygu'r platfformau rhithwir a ddefnyddir i rannu gwybodaeth ac adnoddau. | Uchel | Isel | Canolig |

## Trefniadau Monitro, Adolygu a Gwerthuso

Mae cyfrifoldeb ar bob unigolyn sy’n gweithio yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan gynnwys y rhai sydd mewn lleoliadau addysg, i sicrhau y rhoddir y Strategaeth Hygyrchedd hon ar waith, ac y glynir ati. Bydd hynny’n galluogi plant a phobl ifanc sydd ag anableddau i gyfranogi’n llawn mewn profiad addysgol cynhwysol a’i fwynhau.

Bydd y Strategaeth Hygyrchedd hon yn cael ei hadolygu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a bydd yn mynd ati’n rhagweithiol i geisio mewnbwn gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, lleoliadau nas cynhelir a ariannir, ysgolion a gynhelir, a rhanddeiliaid eraill perthnasol.

Bydd y ddogfen hon yn cael ei rhannu gydag ysgolion ac yn cael ei darparu i rieni/ofalwyr trwy wefan y Cyngor.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.